**Cynllun Trochi Ysgol Dyffryn Conwy**

Mae Ysgol Dyffryn Conwy yn cynnig cyfle i ddisgyblion sy'n mynychu ysgol gynradd categori iaith Saesneg i ddysgu Cymraeg yn rhugl yn ystod blwyddyn 5 a 6. Bydd eu siwrne yn Ysgol Dyffryn Conwy yn dechrau yn ystod hanner tymor cyntaf Blwyddyn 6 pan bydd disgyblion yn ymuno â ni am ddiwrnod o weithgareddau pontio a cychwyn gwersi wythnosol Cymraeg (yn yr ysgol gynradd) gyda tiwtor o Ysgol Dyffryn Conwy. Bydd y gwersi rhagarweiniol yma yn wersi Cymraeg dwys er mwyn datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg.

Ar ddiwedd blwyddyn 6 yn yr hanner tymor olaf byddent yn treulio cyfnod dwys o 4 wythnos yn Ysgol Dyffryn Conwy yn derbyn addysg Gymraeg a datblygu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu.

Pe bai'r disgyblion yn dewis mynychu Ysgol Dyffryn Conwy byddent yn dilyn rhaglen arbennig gyflymedig ym mlwyddyn 7 ac 8 ac erbyn blwyddyn 9 byddant yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ochr yn ochr â'r disgyblion eraill.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol uwchradd, bydd y disgyblion yn derbyn eu haddysg gan amryw o athrawon pwnc sydd wedi derbyn hyfforddiant arbenigol mewn addysg ddwyieithog ac sy'n sensitif i'w anghenion fel dysgwyr.

**Beth os nad yw fy mhlentyn yn siarad gair o Gymraeg?**
Mae'r Cynllun Trochi wedi ei deilwra yn arbennig ar gyfer dysgwyr di-Gymraeg. Mae'r cwrs dwys ar ddiwedd blwyddyn 6 yn gyfle i ysgogi sgiliau iaith sylfaenol y disgyblion. Rydym yn adeiladu ar y sgiliau hyn o flwyddyn 7 ymlaen ymhob agwedd o fywyd yr ysgol.

**Beth yw manteision y prosiect i fy mhlentyn?**
Manteision tymor byr

- Gwella rhuglder yn y Gymraeg.
- Hyrwyddo'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.
- Dechrau cefnogol i addysg uwchradd
- Dosbarthiadau Cymraeg llai o faint gydag athrawon arbennigol dwyieithog
- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau arallgyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Manteision hir-dymor

- Ystod ehangach o gyfleoedd yn y gweithle ar gyfer oedolion ifanc dwyieithog.
- Ymwybyddiaeth diwyllianol cryf
- Agor drysau i ddysgu mwy o ieithoedd

**Sut fydd fy mhlentyn yn ymdopi gyda'r sefyllfa?**
Mae gan yr ysgol brofiad helaeth mewn trochwyr sy'n derbyn mynediad hwyr i'r ysgol, rydym yn cadw golwg manwl ar ddatblygiad y disgyblion ynghyd â monitro cyson o berfformiad disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio app Class Charts sy'n galluogi i rieni a gwarcheidwyr fonitro ymddygiad a llwyddiannau disgyblion o ddydd i ddydd.

**A fydd fy mhlentyn yn gallu cymdeithasu gyda disgyblion o'r brif ffrwd?**
Mae croeso cynnes i ddisgyblion y dosbarth Trochi fynychu pob gweithgaredd allgyrsiol sy'n cael ei gynnig gan yr ysgol. Mae ein disgyblion Trochi yn aelodau o'r timau rygbi, pêl-droed a phêl-rwyd, yn canu yn corau, yn perfformio ar lwyfan yr Eisteddfod ac yn mynd i glybiau cinio.

**Pryd fydd fy mhlentyn yn trosglwyddo i’r brif ffrwd?**
Ym mlwyddyn 7, caiff y dysgwyr trochi eu dysgu o fewn un o ddosbarthiadau prif ffrwd, gyda rhai gwersi yn cael eu dysgu arwahan mewn grwpiau llai. Yn ystod yr hanner tymor olaf ym mlwyddyn 7, bydd disgyblion yn cael ei mentora gan diwtor trwy gydol blwyddyn 7 ac 8. Mae’r Cynllun Trochi yn gynllun dwy flynedd, ond gall y gefnogaeth y bydd dysgwyr ei angen yn amrywio.